Cyngor Caerdydd

# Strategaeth Cyfranogiad 2023-27



This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

CRYFACH TECACH GWYRDDACH | STRONGER FAIRER GREENER

CARDIFF CAERDYDD

# Rhagair

Mae hyrwyddo cyfranogiad dinesig a rhoi llais i bobl Caerdydd wrth lunio'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau yn flaenoriaethau allweddol i'r Cyngor. Maent hefyd yn faterion sy'n agos at fy nghalon.

Felly, rydym wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn golygu rhoi cyfle i bawb gyfrannu wrth gryfhau lleisiau'r rhai sydd ar hyn o bryd yn llai tebygol o gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau.

Dylai pawb yn y ddinas gael cyfleoedd i ddylanwadu ar benderfyniadau a siapio gwasanaethau ac mae'n rhaid i ni fod yn barod i wrando ac ymateb. Efallai na fyddwn bob amser yn bwrw ymlaen â'r opsiwn a ffefrir gan y cyhoedd ond pan nad ydym yn gwneud hynny, mae angen i ni fod yn glir ac yn dryloyw, ac egluro pam.

Bydd gan y Strategaeth Cyfranogiad hon ddwy elfen benodol:

- Ymgynghori ac ymgysylltu i hyrwyddo llais dinasyddion wrth wneud penderfyniadau, a;
- Hyrwyddo cyfranogiad yn y broses ddemocrataidd.

Rydym am i bob cymuned deimlo eu bod yn cael eu cefnogi, cael dweud eu dweud ar y penderfyniadau mawr y bydd y Cyngor yn eu gwneud a chwarae rhan allweddol wrth ddarparu gwasanaethau lleol, gan sicrhau bod amrywiaeth y ddinas yn cael ei hadlewyrchu yn ein gwaith.

Felly, mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar ymgysylltu a chydweithio â'n cymunedau, grymuso dinasyddion i ddweud eu dweud ar yr hyn sy'n bwysig i'w hardal leol a hyrwyddo cyfranogiad mewn democratiaeth.



**Y Cynghorydd Julie Sangani**
Aelod Cabinet dros Drechu Tlodi,
Cydraddoldeb ac Iechyd y Cyhoedd
(Iechyd y Cyhoedd a Chydraddoldeb)

---

Bydd Strategaeth Cyfranogiad Caerdydd yn helpu i ddatblygu cymunedau gweithgar a chynhwysol lle gall pobl ddylanwadu ar y gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn a siapio'r ddinas maen nhw'n byw ynddi. Yn allweddol i hyn fydd ymgysylltu â chymunedau a phartneriaid ond hefyd cefnogi pobl Caerdydd i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

Gallai hyn gynnwys cefnogi cyfranogiad mewn cyfarfodydd cyhoeddus neu gymryd camau tuag at ddod yn gynrychiolydd etholedig o'r gymuned. Gwn nad oes gwaith mwy gwerth chweil na chynrychioli fy etholwyr ac mae'n bwysig ein bod ni, fel Cyngor, yn dangos mor glir â phosibl sut y gallai pawb yn y ddinas gymryd rhan mewn democratiaeth leol.



**Y Cynghorydd Peter Bradbury**
Aelod Cabinet dros Drechu Tlodi,
Cydraddoldeb ac Iechyd y Cyhoedd
(Trechu Tlodi a Chefnogi
Pobl Ifanc)



# Cynnwys

**Rhagair** .......... **2**

**Cefndir a Diben** .......... **4**

**Bodloni ein Gofynion Deddfwriaethol** .......... **4**

**Ein Dull Gweithredu** .......... **7**

**Trefniadau Cyflawni a Monitro** .......... **8**

**Strategaeth Cyfranogiad Rhan Un:**
**Ymgynghori ac Ymgysylltu i Hyrwyddo Llais y Dinesydd wrth Wneud Penderfyniadau** .......... **9**

'Dyma Gaerdydd' 11

Ymgynghori ac Ymgysylltu: Ymarfer Presennol 13

Trefniadau Presennol: Meysydd o Gryfder 16

Nodi Meysydd Gwella: Asesiad Sylfaenol 19

Sbarduno Gwelliant 21

Cynllun Gweithredu Ymgynghori ac Ymgysylltu 22

**Strategaeth Cyfranogiad Rhan Dau:**
**Hyrwyddo Cyfranogiad yn y Broses Ddemocrataidd** .......... **26**

Proffil Demograffig Cynghorwyr Caerdydd 28

Trefniadau Presennol: Meysydd o Gryfder 29

Nodi Meysydd Gwella 36

Gwella Ymwybyddiaeth 37

Gwella Ymgysylltu 38

Cynllun Gweithredu Hyrwyddo Cyfranogiad yn y Broses Ddemocrataidd 40

# Cefndir a Diben

## Pwysigrwydd Cyfranogiad y Cyhoedd

Mae cyfranogiad y cyhoedd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod lleisiau dinasyddion wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Mae'n rhoi cyfle i anghenion a dyheadau cymunedau gael eu clywed ac yn galluogi darparwyr gwasanaethau cyhoeddus i ymateb. Mae'r Strategaeth Cyfranogiad hon yn nodi ymrwymiad y Cyngor i gryfhau cyfranogiad ac ymgysylltu a chyfres o gamau gweithredu i sicrhau y gellir clywed pob llais yn y ddinas.

Pwrpas y Strategaeth Cyfranogiad hon yw sefydlu perthynas â chymunedau yn seiliedig ar ymddiriedaeth, sefydlu ymrwymiad i wrando ar bob llais a sicrhau bod y lleisiau hynny'n cael eu clywed wrth i ni weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol.

# Bodloni ein Gofynion Deddfwriaethol

## Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (2021)

Nod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yw darparu ffyrdd newydd i lywodraeth leol gefnogi a gwasanaethu eu cymunedau ac adfywio democratiaeth leol yng Nghymru. Mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo ac annog cyfranogiad ym mhenderfyniadau cynghorau, gan gynnwys cyhoeddi strategaeth cyfranogiad. Mae Rhan 6 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynnal adolygiad (hunanasesiad) o'r graddau y mae'n arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, ac a ydym yn defnyddio ein hadnoddau yn effeithlon. Mae ymgysylltu ac ymgynghori yn rhan annatod o'r broses hunanasesu hon.

## Deddf Cydraddoldeb 2010

Daeth y Ddeddf Cydraddoldeb â deddfau gwrth-wahaniaethu blaenorol ynghyd a'u disodli ac, o dan y Ddeddf, rhaid i Gyngor Caerdydd gynnwys ac ymgysylltu â phawb sydd â Nodweddion Gwarchodedig. Nodweddion Gwarchodedig unigolyn, a restrir isod, yw pwy ydyn nhw - bydd gan bawb yng Nghaerdydd rai o’r nodweddion hyn.

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Grŵp Ethnig – gan gynnwys tras ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Crefydd neu gred – gan gynnwys dim cred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Priodas a phartneriaeth sifil (o ran gwahaniaethu mewn cyflogaeth)

Mae'n hanfodol ein bod yn estyn allan ac yn ymgysylltu â phawb ledled Caerdydd, fel ein bod yn deall barn pobl sydd â phob un o'r nodweddion hyn ac yn gallu cofnodi eu profiadau byw. Bydd hyn yn llywio ein dealltwriaeth o effaith ein gweithredoedd.

## Mesur y Gymraeg 2011

Yng Nghymru, ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydyn nhw'n dewis gwneud hynny. Ieithoedd swyddogol y Cyngor yw Cymraeg a Saesneg. Wrth ymgysylltu, rhaid i ni weithio yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys darparu ymgysylltiad yn ddwyieithog.

## Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Adran 62)

Mae rôl graffu llywodraeth leol yn rhan annatod o helpu pobl i deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd yn eu hardal leol. Mae gan yr adran Graffu rôl bwysig o ran ysgogi cysylltiadau rhwng gwahanol unigolion a grwpiau ac o ran sianelu gwybodaeth gymunedol i brosesau gwella'r Cyngor a'n partneriaid. Ystyrir ymgysylltu'n fwy trylwyr â'r cyhoedd mewn gweithgarwch craffu yn arwydd o ddemocratiaeth iach. Bydd cyfathrebu gwell am brosesau gwneud penderfyniadau lleol a chyfranogiad mwy cynrychioliadol yn helpu i sicrhau bod profiadau mwy uniongyrchol o fywyd cymunedol yn llywio meddwl strategol ac ymarfer gweithredol. Mae adran 62 o Fesur 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau sy'n galluogi pob person sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal i ddwyn i sylw'r pwyllgorau trosolwg a chraffu perthnasol eu barn ar unrhyw fater dan ystyriaeth y pwyllgor.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae ymgynghori ac ymgysylltu yn elfennau hanfodol o sut mae Cyngor Caerdydd yn gwreiddio Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei waith o ddydd i ddydd. Mae cynnwys pobl wrth wneud penderfyniadau a sicrhau bod eu barn yn adlewyrchu amrywiaeth y ddinas yn rhan allweddol o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy a sicrhau bod cyfranogiad yn nodwedd allweddol o sut mae'r Cyngor yn mynd ati i wneud ei fusnes.

Mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cynhyrchu amrywiaeth o adnoddau i gefnogi awdurdodau lleol i ymgysylltu â chymunedau amrywiol, ac mae'r rhain yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr wrth ddylunio gweithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu.

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Confensiwn rhyngwladol yw CCUHP sy'n nodi hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol plant. Yng Nghymru, mae'r ymrwymiad i'r CCUHP wedi'i gynnwys mewn deddfwriaeth gyda Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 sy'n gosod dyletswydd i roi sylw dyledus i'r CCUHP wrth wneud penderfyniadau.

## Egwyddorion a Safonau Cenedlaethol

Mae mwy i ymgynghori ac ymgysylltu na llunio rhestr o gwestiynau. Dylai ymgysylltu ddilyn yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru i sicrhau ei fod yn cael ei wneud yn effeithiol, tra bod ymgyngoriadau'n cael eu diffinio'n glir gan ofynion cyfreithiol sefydledig.  Mae Egwyddorion Gunning, er enghraifft, yn bedair ystyriaeth sy'n sail i gyfraith ymgynghori. Maent yn nodi'r camau y mae'n rhaid eu cymryd cyn ac ar ôl ymgynghori, sy'n cynnwys sicrhau:

- Bod cynigion yr ymgynghorir arnynt yn dal i fod ar gam ffurfiannol,
- Bod digon o wybodaeth ategol ar gael i ganiatáu 'ystyriaeth ddeallus' mewn fformatau priodol,
- Bod digon o amser i ystyried ac ymateb, a
- Bod 'ystyriaeth gydwybodol' yn cael ei rhoi i'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyn gwneud penderfyniad.

## Cyfansoddiad Cyngor Caerdydd

Mae'r Cyfansoddiad yn nodi sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut y gwneir penderfyniadau a'r gweithdrefnau a ddilynir er mwyn sicrhau bod y rhain yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol.  Mae rhai o'r prosesau hyn yn ofynnol o dan y gyfraith, tra bod eraill yn bethau i'r Cyngor eu dewis.   Rhennir y Cyfansoddiad yn 15 Erthygl sy'n nodi'r rheolau sylfaenol sy'n llywodraethu busnes yr Awdurdod gyda gweithdrefnau a chodau ymarfer manylach yn cael eu darparu mewn rheolau a phrotocolau ar wahân ar ddiwedd y ddogfen.

Mae deddfwriaeth yn caniatáu i'r Weithrediaeth, neu "Gabinet" fel y'i gelwir yn fwy cyffredin, gyflawni swyddogaethau.  Nodir y Swyddogaethau Cabinet hyn yng Nghyfansoddiad y Cyngor.  Mae'r Cyngor hefyd yn penderfynu pa ran o'r Cyngor sy'n gyfrifol am unrhyw swyddogaethau dewis lleol.  Ystyrir bod y penderfyniadau hynny, na nodwyd eu bod yn swyddogaeth i'r Cabinet, yn Swyddogaethau Anweithredol sydd hefyd yn cael eu nodi yn y Cyfansoddiad.

Gellir dirprwyo hefyd i Swyddogion y Cyngor, yn unol â lefel cyfrifoldeb a rôl y swyddog.  Mae'r dirprwyo yn rhoi dyletswydd ar swyddogion i roi gwybod i Gynghorwyr am weithgareddau sy'n codi o fewn cylch y dirprwyaethau hyn.

Mae'r Cyngor yn cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl ar gyfer pob un o'i bwyllgorau sy'n diffinio cylch gwaith pob Pwyllgor a chwmpas y gweithgarwch y gellir ei wneud wrth wneud penderfyniadau.

Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, datblygwyd "Canllaw i'r Cyfansoddiad" gan y Cyngor, sy'n rhoi trosolwg o'r Cyfansoddiad ac yn esbonio ei gynnwys mewn iaith glir a syml.

# Ein Dull Gweithredu

Mae gan Strategaeth Cyfranogiad Cyngor Caerdydd ddwy elfen benodol:  Rhan Un yn canolbwyntio ar **ymgynghori ac ymgysylltu i hyrwyddo llais dinasyddion wrth wneud penderfyniadau** a Rhan Dau yn canolbwyntio ar **hyrwyddo cyfranogiad yn y broses ddemocrataidd**.

## • Strategaeth Cyfranogiad Rhan Un: Ymgynghori ac Ymgysylltu i Hyrwyddo Llais y Dinesydd wrth Wneud Penderfyniadau

- Cynnig a hyrwyddo cyfleoedd i drigolion roi adborth i'r Cyngor, gan gynnwys sylwadau a mathau eraill o gynrychiolaeth
- Ymgysylltu'n rheolaidd ar flaenoriaethau darparu gwasanaethau a deall bodlonrwydd â gwasanaethau
- Ymgysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaeth sy'n derbyn neu'n cael mynediad i wasanaethau penodol
- Darparu cyfleoedd i bawb ymgysylltu â chynigion newid gwasanaethau a datblygu strategaethau a pholisïau newydd, gan gwrdd â'r holl ofynion ymgynghori statudol
- Sicrhau bod llais y dinesydd yn cael ei gynnwys o fewn penderfyniadau'r Cyngor

## • Strategaeth Cyfranogiad Rhan Dau: Hyrwyddo Cyfranogiad yn y Broses Ddemocrataidd

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r swyddogaethau y mae'r Cyngor yn eu cyflawni
- Rhannu gwybodaeth am sut i ddod yn Gynghorydd (Aelod Etholedig) a beth mae rôl y Cynghorydd yn ei olygu
- Sicrhau y gellir cael gafael ar wybodaeth am benderfyniadau sydd wedi'u gwneud, neu a gaiff eu gwneud gan y Cyngor yn haws.
- Trefniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, ar gyfer dwyn barn y cyhoedd i sylw pwyllgorau trosolwg a chraffu
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth Cynghorwyr o fanteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â thrigolion

# Trefniadau Cyflawni a Monitro

Bydd y Strategaeth hon yn cael ei hadolygu'n ffurfiol ar ôl pob etholiad cyffredin (y flwyddyn adolygu gyntaf yw 2027) ac, fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth, bydd ymarfer ymgynghori ar unrhyw ddiwygiadau i'r Strategaeth yn cael ei gynnal fel rhan o'r adolygiad.

Gan y bydd hon yn ddogfen fyw, gyda'r Cyngor yn parhau i arbrofi, dysgu ac addasu ei ddull o ymgysylltu mewn ymateb i'r hyn sy'n gweithio'n dda ac yn cynyddu lefelau ymgysylltu, gellir adolygu'r cynllun gweithredu a'i ddiweddaru dros amser.

Mae'r Cynlluniau Gweithredu Strategaeth Cyfranogiad ategol yn amlinellu camau sydd eu hangen i wella rheolaeth fewnol ac yn rhoi mwy o sicrwydd mewn perthynas â llywodraethu da a'r amgylchedd rheoli cyffredinol.

Bydd y ddarpariaeth yn cael ei hymgorffori yn Fframwaith Cynllunio a Pherfformiad y Cyngor, gyda diweddariad yn cael ei ddarparu drwy Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth, yr Hunanasesiad Perfformiad Canol Blwyddyn a'r Hunanasesiad Perfformiad Diwedd Blwyddyn.





# Strategaeth Cyfranogiad Rhan Un:

## Ymgynghori ac Ymgysylltu i Hyrwyddo Llais y Dinesydd wrth Wneud Penderfyniadau

*Rhoi llais ein dinasyddion wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau*

# Strategaeth Cyfranogiad Rhan Un: Ymgynghori ac Ymgysylltu i Hyrwyddo Llais y Dinesydd wrth Wneud Penderfyniadau

Mae Rhan Un o'r Strategaeth Cyfranogiad yn canolbwyntio ar ymgynghori ac ymgysylltu i helpu i sicrhau bod llais y dinesydd wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau.

Mae'n nodi'r trefniadau sydd gan y Cyngor ar waith ar hyn o bryd i gefnogi ymgysylltu â'r cyhoedd a grwpiau rhanddeiliaid allweddol.  Mae hefyd yn manylu ar ganlyniad asesiad sylfaenol y Cyngor o'i ddull o ymgynghori ac ymgysylltu, sy'n nodi grwpiau o bobl nad ydynt yn aml yn cael eu cynrychioli'n ddigonol. Yn seiliedig ar yr asesiad hwn, mae Rhan Un o'r strategaeth yn nodi'r camau gwella a nodwyd yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol.



# Proffil Demograffig Caerdydd

## DYMA GAERDYDD




**POBLOGAETH 362,660**

### DADANSODDIAD ETHNIGRWYDD

73% - Prydeinig
0.6% - Gwyddelig
0.2% - Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig
0.2% - Roma
5% - Gwyn Arall

2% - Bangladeshaidd
2% - Tsieineaidd
2% - Indiaidd
2% - Pacistanaidd
2% - Asiaidd Arall




1% - Gwyn ac Asiaidd
1% - Gwyn a Du Affricanaidd
1% - Gwyn a Du Caribïaidd
1% - Cymysg Arall

3% - Affricanaidd
0.5% - Caribïaidd
0.5% - Du Arall

Gwyn | Lleiafrif Ethnig | Asiaidd | Du | Cymysg | Arabaidd | Arall

### YSTOD OEDRAN

| Oedran | Nifer | % |
|---|---|---|
| 0 to 14 | 61,950 | 17% |
| 15 to 24 | 64,490 | 18% |
| 25 to 34 | 56,520 | 16% |
| 35 to 44 | 47,100 | 13% |
| 45 to 54 | 41,300 | 12% |
| 55 to 64 | 38,770 | 10% |
| 65 to 74 | 28,980 | 8% |
| 75+ | 23,550 | 6% |


### ANABLEDD

**81%** Ddim yn Anabl

**19%** Anabl

*Dan y Ddeddf Cydraddoldeb*

### CREFYDD NEU GRED



| | |
|---|---|
| Dim crefydd | 41% |
| Cristion | 37% |
| Bwdhydd | 2% |
| Hindŵaidd | 2% |
| Iddewig | 1% |
| Mwslimaidd | 9% |
| Sikh | 1% |
| Crefydd arall | 1% |
| Heb ateb | 6% |

# DYMA GAERDYDD



**POBLOGAETH 362,660**

## HUNANIAETH RHYWEDD

Preswylwyr 16 oed a throsodd



- 93% Yr un peth ag a gofrestrwyd adeg geni
- 0.2% Yn wahanol i'r hyn a gofrestrwyd adeg geni
- 0.1% Menyw draws
- 0.1% Dyn traws
- 0.2% Pob hunaniaeth rhywedd arall
- 6.4% Heb ateb

## CYFEIRIADEDD RHYWIOL

| Preswylwyr 16 oed a throsodd | CYFEIRIADEDD RHYWIOL |
|---|---|
| 87% | Syth neu Heterorywiol |
| 2.4% | Hoyw neu Lesbiaidd |
| 2.4% | Deurywiol |
| 0.5% | Pob cyfeiriadedd rhywiol arall |
| 7.7% | Heb ateb |

## Y GYMRAEG

Ddim yn siarad Cymraeg 72%



Siaradwyr Cymraeg 28%



## RHYW

51%





49%

## PRIODAS A PHARTNERIAETH SIFIL

| | |
|---|---|
| Wedi gwahanu, ond yn dal i fod yn briod neu mewn partneriaeth sifil yn gyfreithiol | 2% |
| Gweddw neu bartner sifil sy'n fyw. | 5% |
| Wedi ysgaru neu bartneriaeth sifil wedi'i diddymu. | 8% |
| Yn briod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig | 37% |
| Erioed wedi priodi na chofrestru partneriaeth sifil. | 48% |

# Ymgynghori ac Ymgysylltu:  Ymarfer Presennol

## Canolfan Ymchwil Caerdydd

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ymgynghori ac ymgysylltu effeithiol, ac mae wedi buddsoddi yn ei gapasiti a'i allu i ymgysylltu â thrigolion y ddinas. Canolfan Ymchwil Caerdydd (CYC) yw tîm ymgynghori ac ymgysylltu'r Cyngor, sydd â hanes sefydledig o gynhyrchu ymchwil o ansawdd uchel.  Mae CYC yn gweithio gyda thimau ar draws y Cyngor, a phartneriaid allanol, er mwyn:

- Datblygu prosiectau ymgysylltu ac ymgynghori
- Cefnogi ymgysylltu effeithiol drwy:
  - Mapio rhanddeiliaid
  - Datblygu gwybodaeth ategol
  - Sicrhau bod deunyddiau ymgysylltu yn hygyrch
  - Deall pa offer y gallai fod ei angen
  - Nodi lleoliadau addas ar gyfer ymgysylltu wyneb yn wyneb
- Dadansoddi a dehongli data
- Paratoi adroddiadau annibynnol a diduedd sy'n bwydo canlyniadau yn ôl
- Cynnig cyngor a chymorth i dimau sy'n ymgymryd â gwaith ymgynghori ac ymgysylltu

Mae CYC hefyd yn helpu i sicrhau bod yr holl waith ymgysylltu ac ymgynghori yn bodloni gofynion cyfreithiol ac arfer gorau, gan gynnwys Egwyddorion Gunning a'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd.



## Sut rydym yn ymgysylltu

Gan gydnabod nad oes un ateb cyffredinol i ymgysylltu, nodir y dull ymgysylltu mwyaf priodol i geisio barn pobl Caerdydd. Gallai hyn gynnwys:

- **Ymgynghori:** Mae hwn yn ddigwyddiad neu weithgaredd ffurfiol gyda dechrau a diwedd sydd wedi'u diffinio'n glir. Mae'r Cyngor yn gofyn am farn y cyhoedd pan fydd angen gwneud penderfyniadau ar faterion pwysig a allai effeithio arnynt (fel newidiadau i wasanaethau, cynlluniau newydd neu bolisïau). Yma, gall pobl ddylanwadu ar ganlyniad penderfyniad a'i newid.
- **Ymgysylltu:** Mae hyn yn rhoi cyfleoedd parhaus i bobl a chymunedau gael sgwrs i rannu eu barn a'u syniadau. Mae'n caniatáu i'r Cyngor ddysgu am brofiad byw pobl.
- **Rhannu Gwybodaeth:** Mae hyn yn cynnwys rhoi gwybodaeth i bobl am ddigwyddiadau, gwasanaethau, polisïau a phenderfyniadau lleol a allai effeithio arnynt neu sydd o ddiddordeb iddynt. Mae'r Cyngor yn gwneud hyn mewn sawl ffordd, gan gynnwys drwy ein gwefan, y cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau, taflenni, grwpiau a fforymau.
- **Cydgynhyrchu:** Gwasanaethau'r Cyngor a chymunedau'n gweithio gyda'i gilydd, gan wneud cyfraniad cyfartal tuag at lunio a darparu gwasanaethau, prosiectau a digwyddiadau cymunedol.

Mae amrywiaeth o ddulliau ar gael i gefnogi ymgysylltu â'r cyhoedd, gan gynnwys:

- Arolygon (ar-lein a chopi caled)
- Cyfweliadau wyneb yn wyneb
- Grwpiau ffocws
- Cyfweliadau manwl
- Gweithdai
- Sesiynau galw heibio
- Gweithgareddau pwrpasol ar gyfer plant a phobl ifanc (e.e. ymgorffori ymgysylltu i gynlluniau gwersi ysgolion)

Gellir gweld enghreifftiau byw ar wefan y Cyngor Ymgynghoriadau Byw (caerdydd.gov.uk)



## Sut rydym yn hyrwyddo cyfleoedd ymgysylltu

Mae gan y Cyngor seilwaith ymgysylltu cadarn ar gyfer hyrwyddo cyfleoedd ymgynghori ac ymgysylltu, sy'n cynnwys:

- Llwyfan cyfryngau cymdeithasol aeddfed â nifer sylweddol o ddilynwyr:
  - Facebook - 57,654 o ddilynwyr
  - Instagram - 16,243 o ddilynwyr
  - Twitter - 106,879 o ddilynwyr
- Ap Cardiff Gov – 82,796 o bobl wedi cofrestru
- Trefniadau cyfathrebu gweithredol gyda'r Tîm Cyfathrebu Corfforaethol a'r Cyfryngau, sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth o weithgareddau'r Cyngor trwy'r cyfryngau cymdeithasol ac yn cynhyrchu datganiadau i'r wasg sy'n cael eu rhannu â sefydliadau newyddion.
- Rhwydwaith helaeth o Hybiau Cymunedol a Llyfrgelloedd
- Trefniadau partneriaeth helaeth – megis gyda Chyngor Trydydd Sector Caerdydd (C3SC) - i sicrhau'r cyrhaeddiad mwyaf posibl
- Gweithio gyda chynghorwyr ward lleol i rannu gwybodaeth a chynyddu ein cyrhaeddiad i mewn i gymunedau
- Sefydliadau cymunedol
- Panel Dinasyddion - sy'n dwyn ynghyd dros 5,000 o drigolion sy'n cefnogi'r Cyngor gydag ymgynghori ac ymgysylltu
- Gweithio gyda phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnal ymgynghoriad ar y cyd

## Ieithoedd Ymgysylltu

Mae'n bwysig bod pawb yn gallu cael mynediad i'n deunyddiau ymgysylltu, waeth beth yw eu gallu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rhoddir ystyriaeth felly i ieithoedd eraill sy'n cael eu defnyddio yng Nghaerdydd, yn enwedig wrth gyhoeddi ymgynghoriadau corfforaethol, fel yr ymgynghoriad blynyddol ar gynigion cyllideb y Cyngor.



# Trefniadau Presennol: Meysydd o Gryfder

Wrth ddatblygu'r Strategaeth Cyfranogiad, asesodd y Cyngor feysydd o arfer da o ran ymgynghori ac ymgysylltu. Mae hyn yn cynnwys:

## Rhaglen Ymgysylltu reolaidd ar Foddhad Preswylwyr a Blaenoriaethau Gwasanaeth

Mae'r Cyngor yn cynnal cyfres o ymarferion ymgynghori mawr gyda'r cyhoedd yn rheolaidd. Er enghraifft:

- **Arolwg Holi Caerdydd:** *Arolwg trigolion blynyddol sy'n casglu barn ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys casglu data tueddiadau ar fodlonrwydd â'r Cyngor a gwasanaethau cyhoeddus, tai, yr economi, yr amgylchedd a diogelwch cymunedol, yn ogystal â themâu amserol fel effaith y pandemig neu'r argyfwng costau byw.*

- **Ymgynghoriad y Gyllideb:** *Ymgynghoriad blynyddol ar gynigion cyllideb y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.*

- **Arolwg Dinas sy'n Dda Plant:** *Rhaglen waith reolaidd gydag ysgolion yng Nghaerdydd, yn ogystal â phlant sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol, gan adeiladu ar yr arolwg a gwaith ymgysylltu arall sy'n cael ei wneud. Mae'n cwmpasu pynciau gan gynnwys Hawliau Plant, addysg, iechyd a lles, a chymunedau lleol.*

Mae dadansoddiad cymharol yn datgelu mai prin yw'r dinasoedd mawr eraill sy'n ymgymryd â gwaith boddhad preswylwyr o'r math hwn yn rheolaidd, sydd wedi caniatáu i Gaerdydd adeiladu data cyfres amser ar ystod o faterion yn ymwneud â barn dinasyddion.

## Cyfradd Ymateb Uchel ar gyfer Arolygon y Ddinas

Wrth gynnal ymgynghoriad, mae'r Cyngor yn derbyn ymateb sylweddol yn rheolaidd ac mae dadansoddiad cymharol ag awdurdodau lleol eraill yn datgelu perfformiad cymharol cryf. Er enghraifft:

- Dros 62,000 o ymatebion i ymgynghoriadau ac arolygon yn 2021/22, cynnydd o 40% ers 2019.
- Cafodd Arolwg Holi Caerdydd 2022 bron i 4,000 o ymatebion.
- Cafodd Ymgynghoriad y Gyllideb 2023/24 bron i 6,000 o ymatebion.
- Derbyniodd yr Arolwg Dinas sy'n Dda i Blant 7,600 o ymatebion, gyda chynrychiolaeth dda ar draws grwpiau oedran, daearyddiaeth, rhywedd ac ethnigrwydd.

Mae cyfradd ymateb - neu "faint sampl" - fwy yn bwysig gan ei bod yn fwy tebygol o fod yn gynrychioliadol o'r boblogaeth ac felly o ddarparu canlyniadau mwy cywir. Mae meintiau sampl llai yn arwain at risg uwch o ganlyniadau'n cael eu gwyro.

Felly, mae cyfraddau ymateb mwy yn arwain at ganlyniadau cryfach a mwy dibynadwy gan eu bod yn cynnwys llai o wallau ond hefyd gan eu bod yn caniatáu i'r canlyniadau gael eu torri i lawr fesul grwpiau o ymatebwyr. Os yw'r gyfradd ymateb yn ddigon mawr, mae'n caniatáu i'r Cyngor ddeall beth mae gwahanol grwpiau o bobl yn ei feddwl am fater, fel pobl ifanc a phobl hŷn, dynion a menywod, neu bobl sy'n byw mewn cymunedau mwy difreintiedig.

## Cyfradd ymateb gadarn o gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill

Mae perfformiad cymharol y Cyngor o gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill Cymru a Dinasoedd Craidd yn arbennig o gryf. Er enghraifft, o gymharu â'r awdurdodau hyn, derbyniodd Caerdydd o leiaf dair gwaith nifer yr ymatebion i Ymgynghoriad y Gyllideb ar gyfer 2023/24, lle cyhoeddwyd canlyniadau. Fel yr awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru, gallai Caerdydd ddisgwyl derbyn mwy o ymatebion nag awdurdodau eraill, ond mae'r Cyngor hefyd yn aml yn rhagori ar gyfraddau ymateb ar gyfer arolygon cenedlaethol. Mae Canolfan Ymchwil Caerdydd yn adnabyddus y tu hwnt i'r Cyngor am ansawdd ei gwaith, ac mae'n gweithio'n rheolaidd gyda sefydliadau partner i gefnogi neu reoli prosiectau ymgysylltu.

## Dull Cymysg o Ymgysylltu


Mae'r Cyngor yn cydnabod bod llawer o bobl yn cael trafferth ymgysylltu ar-lein neu drwy arolygon electronig ac felly datblygwyd ystod o ddulliau ymgysylltu i annog cyfranogiad. Mae llawer o'r rhain wedi'u nodi yn y Strategaeth hon.

## Panel Dinasyddion Mawr a Gweithredol

Mae'r Panel Dinasyddion yn cynnwys preswylwyr o bob rhan o Gaerdydd sydd wedi cytuno i roi eu barn ar nifer o bynciau ymgynghori drwy gydol y flwyddyn. Bydd aelodau'r panel yn rhannu eu barn trwy lenwi arolygon ac, o bryd i'w gilydd, trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau eraill megis grwpiau ffocws, gweithdai neu fforymau. Mae hyn yn ffordd ddibynadwy a chost-effeithiol o glywed barn pobl Caerdydd am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt a dysgu mwy am brofiadau grwpiau neu gymunedau penodol. Mae gan y Panel dros 5,000 o aelodau gweithredol. Datgelodd ymgysylltiad â'r Panel ym mis Mawrth 2022 fod 63% o'r farn bod eu profiad fel aelod o'r Panel yn 'rhagorol' neu'n 'dda', o gymharu â dim ond 3% a oedd yn teimlo ei fod yn 'wael' neu'n 'wael iawn'.

## Ymgynghoriad Statudol Helaeth

Mae rheolaethau mewnol ar waith i sicrhau bod gofynion ymgynghori statudol yn cael eu cyflawni ar draws y Cyngor (e.e. ceisiadau cynllunio a thrwyddedu, polisi derbyn i ysgolion ac ati).



## Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaeth ar draws Cyfarwyddiaethau

Mae gan y Cyngor ganllawiau arfer da ar draws cyfarwyddiaethau i alluogi ymgysylltiad manwl â defnyddwyr gwasanaeth ar foddhad gwasanaeth ac i helpu i lywio'r gwasanaeth. Mae hyn yn cynnig mecanwaith i leisiau nad ydynt yn cael eu clywed yn draddodiadol mewn gwaith ymgynghori ac ymgysylltu. Er enghraifft:

- **Gwasanaethau Plant - Bright Sparks:** Mae hwn yn clwb ieuenctid i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Mae aelodau'n cyfarfod bob pythefnos i ganiatáu i bobl ifanc gwrdd ag eraill mewn sefyllfaoedd tebyg i drafod hawliau yn anffurfiol a rhoi adborth i helpu i lunio gwasanaethau. Mae'r aelodau wedi cefnogi datblygiad pecyn cymorth newydd o'r enw 'Dan y Chwyddwydr' i gryfhau darpariaeth Gwasanaethau Plant Caerdydd. Mae aelodau hyfforddedig yn eistedd ar baneli cyfweld pobl ifanc ar gyfer cartrefi plant preswyl i ddarparu eu persbectif wrth recriwtio aelodau newydd o staff.
- **Dinas sy'n Dda i Blant:** Mae Caerdydd wedi'i henwi'n Ddinas sy'n Dda i Blant UNICEF ac, o'r herwydd, mae plant a phobl ifanc yn cael y cyfle i ddylanwadu ar y penderfyniadau a fydd yn effeithio arnynt. Mae hyn yn adeiladu ar arfer da sy'n bodoli eisoes, fel yr Arolwg Dinas sy'n Dda i Blant sy'n cael ei gynnal bob dwy flynedd, ac ymgysylltiad rheolaidd rhwng arweinyddiaeth wleidyddol a rheolaethol y Cyngor a Chyngor Ieuenctid Caerdydd.
- **Adfywio Cymdogaethau:** Mae'r Tîm Adfywio Cymdogaethau yn cynnal ymgysylltiadau cymunedol wyneb yn wyneb rheolaidd ar gynigion gyda busnesau a phreswylwyr. Mae'r cynlluniau wedi cynnwys rhaglen Adfywio Grangetown, Stryd Clifton, Coridor Busnes De Glan-yr-afon ac Adfywio Heol Ddwyreiniol y Bont-faen. Mae cynlluniau'n cael eu harwain gan swyddogion sy'n ymroddedig i helpu i ateb cwestiynau a chasglu adborth.
- **Dinas sy'n Dda i Bobl Hŷn:** Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Gofalwyr Cymru a'r rhai sy'n derbyn gofal i helpu i lunio gwasanaethau, gyda grwpiau ffocws i ddeall barn ar y broses asesu ar gyfer y rhai sy'n gwneud cais am wasanaethau gofal. Mae cyfres o gylchlythyrau (Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hŷn a Newyddion Iechyd a Lles Caerdydd) ar gael yn ddigidol ac ar ffurf copi caled. Mae'r rhain yn cael eu dosbarthu i bob adeilad cymunedol a meddygfa ar draws y ddinas.



# Nodi Meysydd Gwella: Asesiad Sylfaenol

Er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Cyfranogiad a nodi meysydd gwella, cynhaliwyd asesiad sylfaenol. Roedd hyn yn cynnwys asesiad o brosesau craidd, dadansoddiad meincnod o'r ymatebwyr i nodi unrhyw grwpiau cymunedol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a rhaglen helaeth o ymgysylltu â rhanddeiliaid cymunedol i ddeall rhwystrau i ymgysylltu a chyd-ddatblygu cynigion newydd.

## Asesiad o Ymarfer Corfforaethol

Cynhaliwyd adolygiad o brosesau ymgynghori ac ymgysylltu corfforaethol ar draws meysydd gwasanaeth i sicrhau arfer a llywodraethu da. O ganlyniad, nodwyd y materion allweddol canlynol:

- Roedd methodoleg arolygu ac ymgynghori anghyson yn cael ei ddefnyddio’n achlysurol pan gynhaliodd meysydd gwasanaeth waith ymgysylltu heb ymgynghori â Chanolfan Ymchwil Caerdydd.
- Mae angen deall meddalwedd arolygu a thechnoleg ymgysylltu newydd yn well i gefnogi pobl anabl neu'r rhai â namau.
- Mae angen adolygu'r cynllun lliw a ddefnyddir i gyflwyno canfyddiadau i sicrhau ei fod yn hygyrch i'r 8% o'r boblogaeth sy'n lliwddall.
- Mae angen i lais y dinesydd gael sylw mwy cyson ar draws Fframwaith Cynllunio a Pherfformiad y Cyngor.

## Cau'r Cylch Adborth

Mae bwydo canlyniadau ymgynghori ac ymgysylltu yn ôl yn un o'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru, sy'n argymell y canlynol: *"Rhoddir adborth amserol i'r cyfranogwyr am eu cyfraniad, a'r penderfyniadau neu'r camau a gymerwyd o ganlyniad, gan ddefnyddio dulliau a mathau o adborth sy'n ystyried ffafriaeth y cyfranogwyr."*


Gwnaeth trafodaethau gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys aelodau'r cyhoedd, Aelodau Etholedig a sefydliadau cymunedol i gyd arwain at sylwadau ar bwysigrwydd cau’r cylch adborth, a sut y gellid gwella hyn. Gallai hyn gynnwys hyrwyddo canfyddiadau ymgysylltu'n well a gwreiddio llais y dinesydd ym mhroses gwneud penderfyniadau'r cyngor.


## Asesiad Sylfaenol o Ymatebion


Cynhaliwyd dadansoddiad o'r arolygon craidd a restrir ar dudalen 16 i nodi a datblygu proffil demograffig o ymatebwyr yr arolwg. Cafodd y data ei ddadansoddi a'i gymharu â data demograffig a gymerwyd o Gyfrifiad 2021 ac Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn. Mae'r dadansoddiad yn nodi cyfradd ymateb is amlwg ar gyfer y grwpiau canlynol:


- Wardiau economaidd-gymdeithasol is – Arc Ddeheuol
- Pobl Hŷn (75+ oed)
- Plant a Phobl Ifanc
- Cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol
- Pobl sy'n ystyried eu bod yn Anabl

## Dadansoddiad o Ymatebwyr (mae canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn seiliedig ar oedolion 16+ oed)








## Dadansoddiad Ward

Dangosodd yr asesiad sylfaenol o ymatebion, lle darparwyd data cod post llawn, yn erbyn proffil Caerdydd yn ei gyfanrwydd, fod nifer o wardiau, yn bennaf yn yr Arc Deheuol, yn cael eu tangynrychioli'n gyson mewn prosiectau ymgysylltu corfforaethol. [1]

| Ward | Tan-gynrychiolaeth |
|---|---|
| Cathays | -5.0% |
| Butetown | -1.8% |
| Adamsdown | -1.6% |
| Trelái | -1.6% |
| Caerau | -1.3% |
| Grangetown | -1.3% |
| Llanrhymni | -1.1% |
| Trowbridge | -1.0% |




[1] *Mae dadansoddiad gofodol yn dibynnu ar ddarparu cod post llawn, y mae cyfran nodedig o'r ymatebwyr yn dewis peidio â'i ddarparu.*

# Sbarduno Gwelliant

## Datblygu'r Strategaeth Ddrafft

Er mwyn deall sut y gellid gwella ymgynghori ac ymgysylltu, ymgysylltodd y Cyngor yn helaeth ag ystod eang o randdeiliaid. Cynhaliwyd ymarfer mapio rhanddeiliaid i nodi'r grwpiau cymunedol, hyrwyddwyr cymunedol a sefydliadau a allai helpu i ddeall a nodi rhwystrau, a gwella cyfraddau cyfranogi ar gyfer y grwpiau a nodwyd. Cynhaliwyd dros 25 awr o ymgysylltu i ddeall sut y gall y Cyngor estyn allan yn well i grwpiau nad ydynt wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriadau yn hanesyddol.

Cysylltodd swyddogion â rhanddeiliaid allweddol a nodwyd drwy'r ymarfer mapio, drwy ddulliau amrywiol - megis cyfarfodydd rhithwir, e-byst a galwadau - i drafod materion allweddol a rhwystrau i ymgysylltu â grwpiau a amlygwyd yn y dadansoddiad meincnod. Roedd rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys:

- Cynghorwyr Ward Lleol
- Sefydliadau Cymunedol
- Cyrff Cynrychiolwyr
- Rhwydweithiau Cyflogeion
- Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad

## Ymgynghori ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Mae'r Strategaeth Cyfranogiad wedi bod yn destun ymgynghori ac ymgysylltu helaeth.

Roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus 11-wythnos yn cynnwys cyfieithu'r strategaeth i wahanol ieithoedd cymunedol gyda chopïau caled ar gael i'r cyhoedd ac amlenni rhadbost wedi'u dosbarthu ar draws rhwydwaith helaeth y Cyngor o lyfrgelloedd a hybiau. Anfonwyd yr arolwg ar-lein at aelodau'r Panel Dinasyddion ac e-bostiwyd dolenni i'r arolwg hefyd at ystod eang o randdeiliaid, ynghyd â gwahoddiad i ofyn am gopïau papur o'r arolygon yn y dewis o ieithoedd sydd ar gael.

Hefyd, targedwyd grwpiau o randdeiliaid y nodwyd eu bod yn cael eu tangynrychioli. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu'n uniongyrchol â grwpiau eiriolaeth a sefydliadau cynrychioliadol ac, i gefnogi'r ymarfer ymgynghori, hwyluswyd ymgysylltu uniongyrchol â:

- Wardiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu'r Cyngor;
- Pobl Hŷn (75+ oed);
- Plant a Phobl Ifanc;
- Cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol;
- Pobl sy'n ystyried eu bod yn Anabl.

Roedd y gwaith ymgysylltu â lleisiau nas clywir yn aml yn cynnwys ymgysylltu'n uniongyrchol â dros 200 o bobl o grwpiau sydd fel arfer yn cael eu tangynrychioli. Mae'r strategaeth derfynol wedi'i diweddaru mewn ymateb i'r negeseuon allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r ymgynghori a'r ymgysylltu.

# Strategaeth Cyfranogiad Cyngor Caerdydd 2023-27: Cynllun Gweithredu Ymgynghori ac Ymgysylltu

| *Sicrhau Ymgysylltiad Parhaus â'r Cyhoedd* | | |
|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **Dyddiad Cyflawni** | **Gwasanaeth Arweiniol** |
| **Cynnal Holi Caerdydd - arolwg dinasyddion mawr sy'n canolbwyntio ar foddhad ar Gaerdydd, cymunedau lleol a gwasanaethau cyhoeddus - yn flynyddol.** | Yn flynyddol | Canolfan Ymchwil Caerdydd |
| **Ymgynghori'n flynyddol ar flaenoriaethau Cyllideb y Cyngor.** | Yn flynyddol | |
| **Ymgymryd â rhaglen waith reolaidd gydag ysgolion sy'n adeiladu ar yr arolwg Dinas sy'n Dda i Blant a gwaith ymgysylltu arall sy'n cael ei wneud.** | Dwywaith y flwyddyn | |

| *Gwella Ymarfer Corfforaethol* | | |
|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **Dyddiad Cyflawni** | **Gwasanaeth Arweiniol** |
| **Sicrhau safonau uchel o ymgynghori ac ymgysylltu ar draws pob maes gwasanaeth drwy:**<br>- Gyhoeddi cyngor ac arweiniad sy'n nodi gofynion ymarfer ymgynghori da.<br>- Datblygu Cofnod Ymgynghori sy'n manylu ar yr holl weithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu.<br>- Creu rhwydwaith ymgysylltu â staff i ddarparu cyngor ac arweiniad a rhannu arfer gorau. | Mawrth 2024 | Canolfan Ymchwil Caerdydd |
| **Gwella adborth ymgynghori gydag ymatebwyr a'r cyhoedd ehangach drwy:**<br>- Ddatblygu templed dylunio a brand newydd ar gyfer Canolfan Ymchwil Caerdydd, sy'n canolbwyntio ar wella sut y cyflwynir gwybodaeth.<br>- Datblygu rhaglen adborth i rannu canfyddiadau a chanlyniadau gyda'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy. Gan gynnwys:<br>-Rhannu'r adroddiad Ymgynghori gyda'r Panel Dinasyddion a'r rhai sydd wedi cwblhau'r arolwg.<br>-Cynhyrchu cylchlythyr adborth ymgynghori rheolaidd sy'n manylu ar ganlyniadau ac effaith ymgynghoriadau diweddar, a rennir gyda phob rhanddeiliad.<br>-Sefydlu rhaglen adborth wedi'i thargedu i adeiladu ymddiriedaeth a chysylltiadau â'r cymunedau sydd leiaf tebygol o ymgysylltu.<br>-Gweithio gyda Chyfarwyddiaethau a darparu arweiniad ar sut i gyfleu canfyddiadau, canlyniadau ac effaith ymgynghori i gau'r ddolen adborth mewn cymunedau. | Rhagfyr 2024 | |
| **Adolygu a gwella'r defnydd o lais dinasyddion yn Fframwaith Cynllunio a Pherfformiad y Cyngor drwy:**<br>- Adolygu data arolygu ac ymgysylltu a gasglwyd gan feysydd gwasanaeth.<br>- Ymgorffori "Llais y Dinesydd" mewn Cynlluniau Cyflawni Cyfarwyddiaeth drwy weithio gyda Chyfarwyddiaethau i nodi'r ffynonellau gwybodaeth pwysicaf sy'n ymwneud â barn preswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth.<br>- Cyhoeddi, ochr yn ochr â'r Adroddiad Lles Blynyddol, adroddiad Llais y Dinesydd blynyddol yn ôl Amcan Lles. | Rhagfyr 2023 | |

<table>
<tr><th colspan="3">Gwella Ymarfer Corfforaethol</th></tr>
<tr><th>Cam Gweithredu</th><th>Dyddiad Cyflawni</th><th>Gwasanaeth Arweiniol</th></tr>
<tr><td>Datblygu seilwaith ymgynghori ac ymgysylltu'r Cyngor ymhellach drwy:<br>- Nodi holl adeiladau/gwasanaethau priodol y Cyngor a phartneriaid lle gellir hyrwyddo arolygon.<br>- Datblygu Cyfeirlyfr Ymgynghori, lle gall pob sefydliad, elusen neu leoliad sy'n dymuno hyrwyddo arolygon y Cyngor gofrestru eu diddordeb.<br>- Drafftio sgript i gefnogi staff rheng flaen priodol i hyrwyddo arolygon.</td><td>Rhagfyr 2024</td><td rowspan="7">Canolfan Ymchwil Caerdydd</td></tr>
<tr><td>Gwella'r broses o hyrwyddo canlyniadau arolwg a gwella effaith gwybodaeth arolygon trwy:<br>-Ystyried sut y gellir rhannu canfyddiadau perthnasol gyda rhanddeiliaid lleol.<br>-Defnyddio dangosfyrddau rhyngweithiol i wella sut y cyflwynir canlyniadau'r arolwg.<br>-Hyrwyddo straeon 'newyddion da' o'r camau a gymerwyd yn dilyn arolygon allweddol.</td><td>Tachwedd 2024</td></tr>
<tr><td>Ymgysylltu'n uniongyrchol ag ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu mawr gan gynnwys wyneb yn wyneb â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, yn enwedig y rhai a nodwyd gan ymarfer asesiad sylfaenol y Cyngor a grwpiau a nodwyd drwy Asesiadau Effaith fel rhai sy'n cael eu heffeithio'n anghymesur.</td><td>Ebrill 2024</td></tr>
<tr><td>Sefydlu Cronfa Cyfranogiad beilot i gefnogi grwpiau a sefydliadau cymunedol i hyrwyddo gweithgarwch ymgysylltu a chefnogi'r Cyngor i gysylltu â chymunedau ledled y ddinas.</td><td>Ebrill 2024</td></tr>
<tr><td>Mabwysiadu dull wedi'i dargedu tuag at ymgysylltu drwy ddatblygu cyfeiriadur cymunedol o sefydliadau a grwpiau Caerdydd, sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am y bobl y maent yn eu cefnogi ac yn gweithio gyda nhw er mwyn osgoi syrffed ymgynghori.</td><td>Rhagfyr 2024</td></tr>
<tr><td>Bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd hefyd yn cael ei ddefnyddio i alinio gwaith ymgynghori ac ymgysylltu â gwasanaethau cyhoeddus.</td><td>Rhagfyr 2024</td></tr>
<tr><td>Datblygu canllawiau ar gyfathrebu a gwybodaeth hygyrch.</td><td>Medi 2024</td></tr>
</table>

### *Gwella Ymgysylltu â Wardiau Heb Gynrychiolaeth Ddigonol*

| Cam Gweithredu | Dyddiad Cyflawni | Gwasanaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| **Gwella cyfraddau ymgysylltu fesul ward, gan ganolbwyntio'n benodol ar wardiau sydd â chyfradd ymateb nodweddiadol isel, drwy:**<br>-Gefnogi Cynghorwyr Ward Lleol i hyrwyddo cyfleoedd ymgysylltu o fewn eu ward.<br>-Cynyddu'r defnydd o ymgysylltu wyneb yn wyneb i ategu gwaith arolygu gyda grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.<br>-Annog preswylwyr i ddarparu eu cod post wrth ymateb i arolygon a pharhau i ddefnyddio geodargedu i gyrraedd ymatebwyr mewn rhai rhannau o'r ddinas.<br>-Ymestyn cyrhaeddiad ymhellach i grwpiau cymunedol ar-lein lleol. | Ebrill 2024 | Canolfan Ymchwil Caerdydd |
| **Gwella ymgysylltiad cymunedol lleol ar yr holl brosiectau adfywio mawr.** | Rhagfyr 2024 | |
| **Gwella ymgysylltiad â thenantiaid y Cyngor drwy amrywio dulliau ymgysylltu, megis postio copïau caled o arolygon yn uniongyrchol i denantiaid.** | Gorffennaf 2024 | |
| **Archwilio opsiynau i recriwtio gwirfoddolwyr i hyrwyddo arolygon gyda grwpiau penodol mewn rhannau o'r ddinas.** | Ionawr 2024 | |

### *Gwella Ymgysylltiad â Phobl Hŷn (75+ oed)*

| Cam Gweithredu | Dyddiad Cyflawni | Gwasanaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| **Dosbarthu copïau caled o arolygon i gartrefi gofal a chanolfannau dydd.** | Ionawr 2024 | Canolfan Ymchwil Caerdydd |
| **Hyrwyddo cyfranogiad ym Mhanel Dinasyddion Caerdydd gyda'r rhai dros 75 oed.** | Ionawr 2024 | |
| **Defnyddio Hybiau Cymunedol a grwpiau cymunedol i hyrwyddo cyfranogiad ymhlith pobl hŷn.** | Ionawr 2024 | |

### *Gwella Ymgysylltiad â Phlant a Phobl Ifanc*

| Cam Gweithredu | Dyddiad Cyflawni | Gwasanaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| **Ymgymryd â rhaglen waith reolaidd gydag ysgolion sy'n adeiladu ar yr arolwg Dinas sy'n Dda i Blant a gwaith ymgysylltu arall sy'n cael ei wneud.** | Rhagfyr 2025 | Canolfan Ymchwil Caerdydd |
| **Datblygu, lle y bo'n briodol, fersiynau o ymgynghoriadau ac arolygon sy'n addas i blant.** | Parhaus | |
| **Sefydlu a hyrwyddo'r Panel Dinasyddion Ifanc Caerdydd newydd i ymateb i arolygon pwysig y Cyngor.** | Medi 2024 | |
| **Archwilio, gyda Phrifysgolion ac Undebau Myfyrwyr Caerdydd, opsiynau i wella ymgysylltiad â myfyrwyr.** | Medi 2024 | |

| *Gwella Ymgysylltiad â Grwpiau Ethnig Lleiafrifol* | | |
|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **Dyddiad Cyflawni** | **Gwasanaeth Arweiniol** |
| **Gweithio gyda Rhwydwaith Staff Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig y Cyngor, yn ogystal â sefydliadau allanol, gan gynnwys Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (C3SC), i hyrwyddo arolygon a rhoi adborth ar ganlyniadau.** | Mawrth 2024 | Canolfan Ymchwil Caerdydd |
| **Cynyddu'r defnydd o ymgysylltu wyneb yn wyneb ac ymgysylltiad grŵp i ategu gwaith arolygu.** | Ionawr 2024 | |
| **Lle y bo'n briodol, cyhoeddi ymgynghoriadau'r Cyngor mewn ieithoedd cymunedol, gan ddechrau gydag Arabeg, Pwyleg a Bengaleg, a gweithio gyda grwpiau ac arweinwyr cymunedol i'w hyrwyddo.** | Hydref 2023 | |

| *Gwella Ymgysylltiad â Phobl sy'n Uniaethu fel Anabl* | | |
|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **Dyddiad Cyflawni** | **Gwasanaeth Arweiniol** |
| **Adolygu sut y gallai meddalwedd a thechnoleg wella mynediad ar gyfer - ac ymgysylltiad â - phobl anabl, megis darparu arolygon digidol sy'n gydnaws â darllenwyr sgrin neu ddarparu BSL.** | Medi 2024 | Canolfan Ymchwil Caerdydd |
| **Ailfrandio adroddiadau Canolfan Ymchwil Caerdydd i sicrhau bod y cynllun lliw yn cefnogi hygyrchedd.** | Rhagfyr 2024 | |
| **Adolygu dull y Cyngor o ddarparu fersiynau hygyrch o ddogfennau (e.e. hawdd eu darllen, sain, BSL, map cyffyrddol, is-deitlau, darllenwyr sgrin ac ati) i gefnogi cyfranogiad.** | Mai 2024 | |
| **Parhau i sicrhau bod yr holl ddeunydd ymgynghori ac ymgysylltu mewn iaith glir ac ar oedran darllen priodol.** | Mai 2024 | |
| **Parhau i sicrhau bod lleoliadau a ddefnyddir at ddibenion ymgysylltu ac ymgynghori yn gwbl hygyrch. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod lleoliadau yn gorfforol hygyrch, eu bod yn hygyrch trwy drafnidiaeth gyhoeddus a llesol, a bod yr holl ddeunyddiau ar gyfer digwyddiadau a deunyddiau hyrwyddo yn gwbl hygyrch ac yn ystyried anghenion BSL, hawdd eu darllen, dolen sain ac ati.** | Rhagfyr 2023 | |
| **Nodi rhwystrau a hyrwyddo cyfleoedd drwy ymgysylltu â grwpiau cynrychioliadol ac eiriolaeth, gan gynnwys Rhwydwaith Cyflogeion Anabledd a Grŵp Mynediad a Chydraddoldeb y Cyngor, a sefydliadau partner.** | Hydref 2023 | |
| **Datblygu rhaglen ymgysylltu ac ymgynghori reolaidd gyda chynrychiolwyr y gymuned F/fyddar a'r rhai sy'n ddall neu'n rhannol ddall.** | Gorffennaf 2024 | |




# Strategaeth Cyfranogiad Rhan Dau:

## Hyrwyddo cyfranogiad yn y Broses Ddemocrataidd

# Strategaeth Cyfranogiad Rhan Dau: Hyrwyddo Cyfranogiad yn y Broses Ddemocrataidd

Mae Rhan Dau o'r Strategaeth Cyfranogiad yn canolbwyntio ar hyrwyddo cyfranogiad yn y broses ddemocrataidd i helpu i sicrhau bod pawb yn teimlo'n hyderus ac wedi'u grymuso i gymryd rhan.

Mae'n nodi'r trefniadau sydd gan y Cyngor ar waith ar hyn o bryd i gefnogi cyfranogiad y cyhoedd a chynnwys grwpiau rhanddeiliaid allweddol. Nododd asesiad sylfaenol y Cyngor gyfleoedd i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o drefniadau cyfranogiad democrataidd presennol y Cyngor ac mae'r strategaeth yn nodi camau gwella priodol.



# Proffil Demograffig Cynghorwyr Caerdydd

Yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022, cwblhaodd Aelodau Etholedig Arolwg Amrywiaeth, ac mae'r canlyniadau wedi'u crynhoi isod.

- **Oedran**

  Mae cyfran is (78%) o'r Aelodau Etholedig o fewn yr ystod oedran gweithio - h.y. rhwng 16 a 65 oed, o gymharu ag 83.3% (o'r rhai 16+ oed) a nodwyd yn nata Cyfrifiad 2021 o fewn yr ystod oedran hwn. Roedd gostyngiad o 10% yn nifer yr Aelodau Etholedig dros 65 oed.

- **Anabledd**

  Nododd mwyafrif yr Aelodau Etholedig (83%) nad ydynt yn anabl o gymharu â 78.5% o breswylwyr 16+ oed yng Nghaerdydd yng Nghyfrifiad 2021. Mae cyfran is (17%) o Aelodau Etholedig yn nodi eu bod yn anabl.

- **Ethnigrwydd**

  Er bod mwy na thri chwarter yr Aelodau Etholedig (78%) o gefndir gwyn Prydeinig, nododd 16% eu bod yn dod o grŵp cefndir lleiafrifol ethnig. Mae hyn yn cymharu â'r 18.6% (o'r rhai 16+ oed) sy'n perthyn i gefndir lleiafrifol ethnig a nodwyd yng Nghyfrifiad 2021 ar gyfer Caerdydd.

- **Hunaniaeth rhywedd**

  Ni chafodd hyn ei archwilio'n llawn yn ystod yr arolygon Aelodau Etholedig, fodd bynnag, bydd arolygon dilynol yn cynnwys cwestiynau hunaniaeth rhywedd.

- **Priodas a phartneriaeth sifil**

  Mae dros hanner yr Aelodau Etholedig presennol (58%) yn briod. Nododd yr arolwg hefyd gynnydd i 14% o Aelodau Etholedig sy'n cyd-fyw neu'n byw gyda'u partner. Gwnaeth nifer uwch o Aelodau Etholedig hefyd ddatgan eu bod naill ai'n sengl (17%) neu wedi gwahanu/ysgaru (9%). Mae gwahaniaeth nodedig o gymharu â data Cyfrifiad 2021 sy'n nodi bod 36.8% o breswylwyr 16+ oed yn briod neu mewn partneriaeth sifil, 48.6% erioed wedi priodi neu gofrestru partneriaeth sifil a 7.8% wedi ysgaru.

- **Crefydd neu gred**

  Nododd yr arolwg gynnydd i 48% yn nifer yr Aelodau Etholedig nad oeddent yn ystyried eu bod yn perthyn i unrhyw grefydd benodol. O'r Aelodau Etholedig hynny a oedd yn uniaethu â ffydd benodol, mae'r gyfran fwyaf (39%) yn ystyried bod ganddyn nhw gredoau Cristnogol. Cadarnhaodd cyfran is o Aelodau Etholedig eu bod yn Fwslimaidd (7%) ac Iddewig (2%) gyda 2% arall yn nodi eu bod yn Hindŵ, Sikh neu o grefyddau eraill. Canfu cyfrifiad 2021 fod ffydd neu gredoau crefyddol gan lefelau ychydig yn uwch o breswylwyr 16+ oed, er bod lefelau is o drigolion yn nodi nad oes ganddynt grefydd (roedd y cwestiwn hwn yn wirfoddol yng Nghyfrifiad 2021, felly ni ddewisodd pob preswylydd ateb).

- **Rhyw**

  Roedd cynnydd o 10% mewn Aelodau Etholedig benywaidd sy'n adlewyrchu'n well boblogaeth fenywaidd Caerdydd o gymharu â data Cyfrifiad 2021.

- **Cyfeiriadedd rhywiol**
  Pan ofynnwyd iddynt am eu cyfeiriadedd rhywiol, cadarnhaodd mwyafrif yr Aelodau Etholedig (86%) eu bod yn 'heterorywiol neu'n syth'. Nododd tua 10% eu bod yn 'Ddeurywiol' gyda chyfran is (<3%) yn nodi eu bod yn 'Hoyw'. Ni chynhwyswyd yr opsiynau cyfeiriadedd rhywiol ehangach yn yr arolwg - h.y. panrywiol, anrhywiol, a chwîar.

- **Yr iaith Gymraeg**
  Mae mwyafrif yr Aelodau Etholedig yn ystyried eu hunain yn Gymry gyda'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Mae'n werth nodi y canfu'r arolwg hwn fod gan nifer a chyfran uwch o Aelodau Etholedig y Gymraeg (10%) ac ieithoedd eraill (9%) yn iaith gyntaf iddynt. Mae mwy o Aelodau Etholedig (46%) sydd â lefel o sgiliau Cymraeg (sgiliau sylfaenol i rhugl) ac mae gostyngiad bychan wedi bod i 32% yn nifer yr Aelodau Etholedig nad ydynt yn gallu siarad unrhyw Gymraeg.

# Trefniadau Presennol: Meysydd o Gryfder

Wrth ddatblygu'r Strategaeth Cyfranogiad, asesodd y Cyngor feysydd o arfer da o ran ymgynghori ac ymgysylltu. Mae'r rhain yn cynnwys:

## Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r swyddogaethau y mae'r Cyngor yn eu cyflawni i drigolion, busnesau ac ymwelwyr

### Gwefan y Cyngor

Mae gwefan Cyngor Caerdydd yn darparu amrywiaeth o wybodaeth i:

- Breswylwyr gan gynnwys tai, ysgolion, llyfrgelloedd, ffyrdd a theithio, ailgylchu a gwastraff, parciau a diwylliant, Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Busnes gan gynnwys; cynllunio, rheoli eiddo ac adeiladau, iechyd amgylcheddol, trwyddedu a thrwyddedau, tendrau a chomisiynu, ardrethi busnes, a chymorth a chyllid i fusnesau.
- Ymwelwyr gan gynnwys Croeso Caerdydd, Awyr Agored Caerdydd, trafnidiaeth gyhoeddus a chyngor ar deithio.
- Eich Cyngor gan gynnwys cyllid y Cyngor, strategaethau, cynlluniau a pholisïau, sylwadau, cwynion a chanmoliaethau, ac adran i'r cyhoedd "ddweud eu dweud".

### Cynghorwyr Ward

Gall cynghorwyr roi gwybod i'w hetholwyr am wasanaethau a dyletswyddau'r Cyngor yn ystod eu cymorthfeydd ward, mewn cylchlythyrau ward ac mewn cyfarfodydd gyda grwpiau cymunedol.

## Rhannu gwybodaeth am sut i ddod yn Gynghorydd (Aelod Etholedig) a beth mae rôl y Cynghorydd yn ei olygu.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 79 o Gynghorwyr a etholir bob pum mlynedd. Mae Cynghorwyr yn ddemocrataidd atebol i drigolion eu ward etholiadol. Dyletswydd pennaf Cynghorwyr yw cynrychioli'r holl gymuned, ond mae ganddynt ddyletswydd arbennig i'w hetholwyr, gan gynnwys y rhai na wnaethant bleidleisio drostynt.

Cynhelir yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf ym mis Mai 2027. Gellir dod o hyd i wybodaeth am sut i sefyll mewn etholiad ar y tudalennau Pleidleisio ac Etholiadau ar wefan y Cyngor. Mae dolenni ar gael hefyd i wefan "Byddwch yn Gynghorydd. Sicrhewch Mai Chi yw'r Newid" Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sy'n darparu canllaw defnyddiol i ddarpar ymgeiswyr.

### Datganiad Cyngor Amrywiol

Er bod Caerdydd yn perfformio'n well na llawer o gynghorau o ran amrywiaeth y cynghorwyr, nid yw pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, menywod, pobl iau na phobl anabl yn cael eu cynrychioli'n gymesur yn siambrau Cyngor prifddinas Cymru eto.

Cymeradwyodd y Cyngor y Datganiad Cyngor Amrywiol yn 2022 a oedd yn nodi sut roedd y Cyngor yn bwriadu:

- Ehangu cynrychiolaeth ddemocrataidd leol
- Cefnogi ymgysylltiad â phenderfyniadau lleol
- Cynorthwyo Cynghorwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol

Profwyd hyn drwy:

- Gyflawni hyblygrwydd ym musnes a gweithgareddau'r Cyngor i gefnogi Aelodau Etholedig a'u galluogi i gyflawni eu hymrwymiadau a'u cyfrifoldebau personol, proffesiynol, diwylliannol a gofalu.
- Darparu dyletswydd gofal i Aelodau Etholedig drwy ddarparu mynediad i wasanaethau cwnsela a thrwy roi sylw i'w diogelwch a lles pryd bynnag y byddant yn cyflawni eu rôl fel cynghorwyr.
- Sicrhau bod pob Aelod Etholedig yn cael y cyfle i fanteisio ar y lwfansau a'r cyflogau y mae ganddo hawl iddynt, yn enwedig unrhyw ad-daliad am gostau gofal, fel bod pob Aelod Etholedig yn cael cydnabyddiaeth deg am ei waith ac nad yw rôl Aelod Etholedig wedi'i chyfyngu i'r rhai sy'n gallu ei fforddio.
- Parhau i hyrwyddo'r safonau ymddygiad uchaf gan Aelodau Etholedig a'r rhai sy'n bwriadu ymgeisio am rôl ar y Cyngor.

Bydd elfennau eraill o'r Datganiad yn cael eu hintegreiddio i Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Cyfranogiad.

### Disgrifiadau Rôl

Cymeradwyodd y Cyngor fabwysiadu Disgrifiadau Rôl Aelod Etholedig y gellir eu defnyddio i hysbysu'r cyhoedd ac ymgeiswyr posibl o'r gwahanol rolau y mae cynghorwyr yn ymgymryd â hwy. Dylid nodi nad yw'r dogfennau hyn yn adlewyrchu unrhyw rolau y gall Cynghorwyr eu cyflawni mewn perthynas â'u grwpiau neu bleidiau gwleidyddol. Bydd y disgrifiadau rôl hyn yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer datblygu disgrifiadau rôl yng Nghaerdydd yn ystod gweinyddiaeth 2022-27 i adlewyrchu rolau Aelodau Etholedig yng Nghaerdydd yn well.

### Taliadau Cydnabyddiaeth

Mae cynghorwyr yn derbyn cyflog sy'n cael ei bennu bob blwyddyn gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (PACGA). Mae'r Cyngor yn cymeradwyo'r Rhestr Taliadau Cydnabyddiaeth Aelodau sy'n nodi pa gyflogau sy'n daladwy, y gofynion i hawlio costau teithio a chynhaliaeth, a chyfraniad at gostau gofal a chymorth personol i Gynghorwyr pan fyddant yn cyflawni eu dyletswyddau cymeradwy.

Mae manylion yr holl daliadau a wneir i Gynghorwyr ar gael i'r cyhoedd ar wefan Taliadau a Lwfansau Aelodau y Cyngor yn unol ag Adroddiad Blynyddol PACGA.

### Safonau Ymddygiad

Rhaid i gynghorwyr gadw at ddarpariaethau'r Cod Ymddygiad Cynghorwyr sydd wedi'i gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor pan fyddant yn cyflawni eu dyletswyddau - h.y. wrth fynychu cyfarfodydd.

## Sicrhau y gellir cael gafael ar wybodaeth am benderfyniadau sydd wedi'u gwneud, neu a gaiff eu gwneud gan y Cyngor yn haws

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi rhaglen gyfarfodydd flynyddol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r rhaglen hon yn darparu'r fframwaith i'r Cabinet bennu, trefnu a chyhoeddi ei Flaengynllun o'r penderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud yn y tri mis nesaf. Mae'r pum Pwyllgor Craffu yn defnyddio'r Blaengynllun fel sail ar gyfer datblygu eu Rhaglenni Gwaith eu hunain sydd hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor bob chwarter.

Bydd cyfarfodydd a drefnir yn rhoi o leiaf dri diwrnod gwaith clir o rybudd o unrhyw gyfarfod ffurfiol trwy bostio manylion yr eitemau agenda sydd i'w hystyried ar wefan y Cyngor. Gall y cyhoedd gofrestru ar y wefan i danysgrifio i ddiweddariadau gan bwyllgor neu eitem o ddiddordeb. Yna bydd y cyfleuster hwn yn anfon e-bost at y tanysgrifiwr yn awtomatig pan fydd unrhyw wybodaeth newydd sy'n gysylltiedig â'i ddewisiadau yn cael ei chyhoeddi.

Mae'r wybodaeth hon yn galluogi'r cyhoedd i benderfynu a ydynt am ddod i'r cyfarfod yn bersonol neu ei wylio drwy ddefnyddio ein gwasanaeth gweddarlledu. Gellir gwahardd y cyhoedd o'r rhannau hynny o gyfarfod lle mae gwybodaeth eithriedig neu gyfrinachol yn cael ei thrafod.

Gall aelodau o'r cyhoedd sy'n byw neu weithio yn ardal Caerdydd ofyn cwestiynau i Aelodau'r Cabinet neu Gadeiryddion Pwyllgorau mewn cyfarfodydd cyffredin o'r Cyngor yn unol â Rheolau Gweithdrefn Cyfarfodydd y Cyngor yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Cafodd cyfanswm o ddeg cwestiwn cyhoeddus eu hystyried yn saith Cyfarfod Cyffredin y Cyngor yn 2022-23.

**Cynllun Deisebau'r Cyngor**

Mae deisebu yn un ffordd y gall unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, drwy godi materion sy'n peri pryder i'r cyhoedd gyda'r Cyngor a chaniatáu i Aelodau Etholedig ystyried yr angen am newid. Cydnabyddir y gall deisebau gael canlyniadau cadarnhaol sy'n arwain at newid neu lywio trafodaeth. Cymeradwywyd Cynllun Deisebau diweddaraf y Cyngor ym mis Mawrth 2022 a chyflwynwyd deisebau i bob un o gyfarfodydd cyffredin y Cyngor yn 2022-23.

Gellir cyflwyno deisebau hefyd i Bwyllgor ac, os oes dros 50 o lofnodwyr ar y ddeiseb, gwahoddir y deisebydd arweiniol i gyflwyno'r ddeiseb yng nghyfarfod y Pwyllgor.

**Gweddarllediad cyfarfodydd**


Dim ond cyfarfodydd y Cyngor y mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i'w darlledu. Fodd bynnag, gyda gweithrediad Polisi Cyfarfod Aml-Leoliad y Cyngor ym mis Mai 2022, penderfynwyd y byddai'r cyfarfodydd Cabinet, Pwyllgor Cynllunio, Pwyllgorau Craffu, Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a Phwyllgor Safonau a Moeseg hefyd yn cael eu ffrydio'n fyw neu eu recordio i'w gwylio'n ddiweddarach ar lyfrgell Gweddarlledu'r Cyngor am hyd at 12 mis.

**Cofnod o Benderfyniadau**

Yn dilyn cyfarfod agored bydd y Cyngor yn sicrhau bod cofnodion cyfarfodydd ffurfiol y Cyngor a'r Pwyllgor neu'r cofnod o benderfyniadau a wnaed gan y Cabinet ar gael ar ei wefan am gyfnod o chwe blynedd ar ôl cyfarfod.

## Trefniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, ar gyfer dwyn barn y cyhoedd i sylw pwyllgorau trosolwg a chraffu

Mae gan Gyngor Caerdydd bum Pwyllgor Craffu sy'n gyfrifol am graffu ar wahanol feysydd o'r Cyngor a gwaith partneriaeth. Mae'r pwyllgorau hyn yn adolygu penderfyniadau a wnaed a chamau a gymerwyd gan Gabinet y Cyngor mewn perthynas â darparu gwasanaethau, ac yn craffu arnynt er mwyn gwella lles trigolion. Maent hefyd yn taflu goleuni ar effeithiolrwydd gwaith partneriaeth lleol y mae'r Cyngor yn chwarae rhan flaenllaw ynddo.




Mae pob Pwyllgor Craffu yn cynnwys naw Aelod Etholedig. At hynny, mae gan y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc bedwar aelod cyfetholedig, sy'n cynnwys dau gynrychiolydd rhiant-lywodraethwr, cynrychiolydd Catholig, a chynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru. Mae Pwyllgorau Craffu'r Economi a Diwylliant, yr Amgylchedd a Phlant a Phobl Ifanc yn cynnig sedd i gynrychiolydd Cyngor Ieuenctid Caerdydd, gan alluogi pobl ifanc i ychwanegu eu lleisiau i'r broses o wneud penderfyniadau.

Mae'r Pwyllgorau Craffu am sicrhau bod eu gwaith yn adlewyrchu anghenion trigolion Caerdydd. Mae ei Rhaglenni Gwaith yn cael eu datblygu i adlewyrchu'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau'r Cyngor ac anogir y cyhoedd i gysylltu â'r adran Graffu i rannu eu barn a thynnu sylw at unrhyw bryderon ynghylch polisïau a gwasanaethau'r Cyngor y mae'r adran Graffu yn eu harchwilio. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r ffaith nad yw'r Pwyllgorau Craffu yn delio ag ymholiadau, pryderon na chwynion unigol.

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i annog mwy o gyfranogiad gan y cyhoedd yn ei waith. Mae Pwyllgorau Craffu yn croesawu cyfraniadau gan bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd. Mae rhannu barn a phrofiadau'r cyhoedd yn rhoi llais iddynt, yn helpu i gryfhau'r broses graffu a gwella atebolrwydd democrataidd y Cyngor.

Mae Pwyllgorau Craffu a Grwpiau Gorchwyl a Gorffen yn gwahodd ac yn cynnwys arbenigwyr pwnc mewnol ac allanol yn rheolaidd, ac yn rhoi eu barn broffesiynol a'u mewnwelediad i'r pynciau sy'n cael eu hystyried i gefnogi'r Pwyllgor i ddatblygu ei argymhellion fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

## Cymryd rhan yn y broses graffu

Gall unrhyw un sy'n dymuno cymryd rhan yn y broses graffu gwblhau a chyflwyno'r ffurflen 'Cyfrannwch at Graffu', sydd ar gael ar wefan y Cyngor. Fel arall, gellir e-bostio'r ffurflen wedi'i llenwi at: barngraffu@caerdydd.gov.uk neu ei phostio i: Gwasanaethau Craffu, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 4UW.

Mae croeso i unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio yng Nghaerdydd i:

- **Gynnig pwnc i'w ystyried gan y Pwyllgorau Craffu.**
  Bydd y cynnig yn cael ei wirio a'i werthuso gan ddefnyddio meini prawf y cytunwyd arnynt. Bydd y Pwyllgor Craffu yn defnyddio'r gwerthusiad i lywio ei benderfyniad ynghylch a ddylid cynnwys y pwnc a gynigir yn ei Flaenraglen Waith. Mae'r penderfyniad hwn yn ôl disgresiwn y Pwyllgor Craffu yn llwyr a bydd unigolion yn cael eu hysbysu o ganlyniad eu cynnig.

- **Cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor Craffu ar bwnc y maent eisoes yn ei ystyried.**
  Mae'r Flaenraglen Waith ar gyfer pob Pwyllgor Craffu yn dangos y pynciau sydd i'w hystyried yn ystod y misoedd nesaf. Fodd bynnag, weithiau daw eitemau eraill i'r amlwg sy'n gofyn am graffu. Mae'r agenda ar gyfer cyfarfodydd unigol y Pwyllgor Craffu, sy'n dangos yr eitemau sy'n cael eu hystyried, ar gael ar wefan y Cyngor dri diwrnod clir cyn cynnal cyfarfod y Pwyllgor.

  Rhaid cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig erbyn **4pm, dau ddiwrnod gwaith** cyn cyfarfod perthnasol y Pwyllgor Craffu. (Er enghraifft, os yw cyfarfod y Pwyllgor Craffu yn digwydd ar ddydd Llun, dylid derbyn tystiolaeth ysgrifenedig erbyn 4pm ar y dydd Iau blaenorol. Os yw cyfarfod y Pwyllgor Craffu yn digwydd ar ddydd Mercher, dylid derbyn tystiolaeth ysgrifenedig erbyn 4pm ar y dydd Llun.)

  Caiff tystiolaeth ysgrifenedig ei gwerthuso gan ddefnyddio meini prawf priodol a bydd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu yn defnyddio'r gwerthusiad hwn i lywio ei benderfyniad ynghylch a ddylid caniatáu cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig. Bydd yr unigolyn yn cael ei hysbysu os yw'r dystiolaeth wedi cael ei derbyn neu'n cael rhesymau clir dros beidio â gwneud hynny.

- **Siarad i Bwyllgor Craffu ar bwnc y mae eisoes yn ei ystyried.**
  Gall aelod o'r cyhoedd gyflwyno ffurflen gyswllt i ofyn am gael siarad â Phwyllgor Craffu am eitem y mae'n ei hystyried. Rhaid i'r ffurflen gael ei derbyn erbyn 4pm, dau ddiwrnod gwaith cyn cyfarfod perthnasol y Pwyllgor Craffu. (Er enghraifft, os yw cyfarfod y Pwyllgor Craffu yn digwydd ar ddydd Llun, dylid derbyn y ffurflen erbyn 4pm ar y dydd Iau blaenorol. Os yw cyfarfod y Pwyllgor Craffu yn digwydd ar ddydd Mercher, dylid derbyn y ffurflen erbyn 4pm ar y dydd Llun.)


## Ymchwil ac Ymgysylltu â Chraffu

Mae gan adran Graffu'r Cyngor wasanaeth ymchwil pwrpasol sy'n darparu gwybodaeth a thystiolaeth wreiddiol, gadarn, annibynnol i gefnogi swyddogaeth graffu effeithiol a diduedd. Mae hyn yn aml yn cynnwys casglu a dadansoddi gwybodaeth a thystiolaeth yn systematig ar safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth, rhanddeiliaid a phreswylwyr ar effaith ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau neu bolisïau a strategaethau arfaethedig.  Daw hyn â gwybodaeth newydd i'r adran Graffu a'r Cyngor nad oedd ar gael o'r blaen i'w hystyried mewn adolygiadau gwasanaeth neu adolygiadau gweithredol, datblygiadau polisi a dadleuon democrataidd.

Gwneir ymchwil fel arfer ar bynciau sy'n cael eu hystyried yn fanwl fel rhan o gyfarfod Pwyllgor Craffu a'i waith "Ymchwiliad Gorchwyl a Gorffen." Gall yr ymgysylltu a'r ymchwil a wneir ar gyfer Craffu gynnwys amrywiaeth o fethodolegau meintiol neu ansoddol a/neu adolygiadau o ddogfennau gan gynnwys:

- Arolygon o breswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth;
- Grwpiau ffocws, astudiaethau achos gweithdai a chyfweliadau hysbysydd allweddol manwl ynghylch profiad defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid;
- Dadansoddiad meincnodi ac adolygiad arfer gorau;
- Adolygiadau tystiolaeth sy'n seiliedig ar ddogfennau a llenyddiaeth.

Mae'r Adroddiad Blynyddol Craffu diweddaraf ar gyfer 2022-23 yn nodi cynnydd sylweddol yn lefel y cyfranwyr allanol o'r 386 cyfrannwr a nodwyd yn Adroddiad Blynyddol Craffu y flwyddyn flaenorol. Roedd 3,759 o gyfranwyr allanol at Graffu yn 2022-23.  Roedd hyn yn cynnwys unigolion a rhanddeiliaid yn cwblhau arolygon neu'n rhannu eu barn ar ystod o bynciau gan gynnwys Llywio Adferiad Economaidd Ôl-bandemig Caerdydd. Mynychodd unigolion gyfarfodydd Pwyllgor Craffu hefyd i roi eu barn ar y Strategaeth Ailgylchu a digartrefedd ar y stryd gydag 20 o gyflwyniadau gan y cyhoedd yn cael eu derbyn drwy'r cyfeiriad e-bost Barn Graffu.  Mae gwaith ymgysylltu wedi parhau gyda'r alwad ddiweddar am dystiolaeth yn ymwneud â'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN).



### Hyrwyddo ymwybyddiaeth Cynghorwyr o fanteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â thrigolion

Mae cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol y Cyngor ar Facebook, Instagram a Twitter yn cael eu cefnogi gan swyddogion. Nid yw cynghorwyr unigol yn cael cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, mae gan rai Cynghorwyr eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol eu hunain y maent yn eu defnyddio i gyfathrebu â'u cymunedau.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cyhoeddi canllaw i Gynghorwyr ynghyd â rhai awgrymiadau a chyngor o ran delio â cham-drin ar-lein.

Er mwyn mynd i'r afael â rhai o bryderon Cynghorwyr wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, cymeradwyodd y Cyngor y Cod Egwyddorion Cyfryngau Cymdeithasol Aelodau sydd wedi'i gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

# Nodi Meysydd Gwella

Er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Cyfranogiad a nodi meysydd gwella, cynhaliwyd asesiad sylfaenol. Roedd hyn yn cynnwys asesiad o brosesau craidd a dadansoddiad meincnod o'r ymatebwyr i nodi a deall rhwystrau i ymgysylltu a chyd-ddatblygu cynigion newydd.

### Sbarduno Gwelliant

Er mwyn deall sut y gellid gwella ymgynghori ac ymgysylltu, ymgysylltodd y Gwasanaethau Democrataidd ag ystod eang o randdeiliaid. Ymgysylltwyd â swyddogion drwy wahanol ddulliau (e.e. cyfarfodydd rhithwir, wyneb yn wyneb). Roedd rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys:

- Cynghorwyr
- Ymgyrch 50/50 Amrywiol, gan gynnwys:
  - Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru,
  - Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru,
  - Race Council Cymru, ac
  - EYST Cymru (Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig).
- Cyngor Ieuenctid Caerdydd
- Senedd Ieuenctid Cymru
- Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
- Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad

# Gwella Ymwybyddiaeth

## Porth Democratiaeth

Mae gwefan y Cyngor yn darparu ystod eang o wybodaeth sy'n cefnogi ymwybyddiaeth y cyhoedd o wybodaeth am y Cyngor.

Mae "Porth Democratiaeth Leol newydd Cymru" yn cynnig canolbwynt ar gyfer gwybodaeth sy'n ymwneud yn benodol â'r broses ddemocrataidd. Mae'r porth yn cynnwys cyfres o nodweddion rhyngweithiol, megis fideos a dogfennau hawdd eu darllen, i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd.

Mae'r safle hefyd yn cynnwys cyfres o ffilmiau byrion sy'n ceisio helpu cymunedau i ddeall sut mae democratiaeth leol yn gweithio, sut y gall pobl gymryd rhan a'r manteision i'r gymuned. Mae'r rhain yn cynnwys Aelodau Etholedig o bob rhan o Gymru, gan gynnwys nifer o Gynghorwyr Caerdydd, yn siarad am eu rolau, y gefnogaeth y maent yn ei derbyn a'r gwahaniaeth y gall Aelodau ei wneud yn eu cymunedau. Mae'r fideos hefyd yn rhoi gwybodaeth am:

- Yr hyn y gall y Cyngor ei wneud i chi
- Pwysigrwydd amrywiaeth mewn democratiaeth
- Gwneud gwahaniaeth fel cynghorydd
- Y gefnogaeth a ddarperir i Gynghorwyr.

## Cefnogaeth i Ymgeiswyr Anabl sy'n Sefyll i'w Hethol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyllid ar gyfer cynllun peilot i ariannu addasiadau a chefnogaeth resymol i ymgeiswyr anabl, gan gynnwys y rheini sy'n niwrowahanol, sy'n ceisio cael eu hethol mewn etholiadau Llywodraeth Leol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael am fynediad i rôl etholedig yn https://www.disabilitywales.org/projects/access-to-elected-office-fund-wales/.



### Hyrwyddo Gweithgareddau Democrataidd

Er bod cryn dipyn o wybodaeth ar gael i gefnogi'r prosesau democrataidd yng Nghaerdydd, mae lefel ymwybyddiaeth trigolion y ddinas am y wybodaeth hon yn gyfyngedig.  Bydd y wybodaeth sydd ar gael i gefnogi cyfranogiad yn y broses ddemocrataidd yn cael ei hyrwyddo drwy ddatblygu "Cynllun Cyfathrebu Democratiaeth".   Gallai hyrwyddo rôl swyddogaeth graffu'r Cyngor hefyd wella'r lefel bresennol o ymwybyddiaeth a chynyddu cyfranogiad y cyhoedd - er enghraifft, cynyddu'r nifer sy'n defnyddio'r ffurflen gyswllt ar-lein "Cyfrannwch at Graffu."

### Defnydd o’r Cyfryngau Cymdeithasol

Mae gan y Cyngor ôl troed cyfryngau cymdeithasol corfforaethol eang a sefydledig.  Mae'r strategaeth hon yn ceisio nodi cyfleoedd newydd i hyrwyddo gweithgareddau a digwyddiadau democrataidd.   Am y rheswm hwn, bydd cyfleoedd i wella a hyrwyddo cyfranogiad yn y broses ddemocrataidd yn cael eu datblygu trwy bresenoldeb mwy penodol ar y cyfryngau cymdeithasol.

Byddai hyn yn ategu'r bwriad i gefnogi Cynghorwyr gyda hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau cyffredinol a fyddai'n cynnig cymorth technegol ar gyfer defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon ymarferol am ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu ag etholwyr.  Byddai hyfforddiant cyfryngau ehangach yn gwella hyder Cynghorwyr wrth ymgysylltu â'r cyfryngau ac mewn fforwm cyhoeddus.

## Gwella Ymgysylltu

### Mentora a Chysgodi

Yn flaenorol, mae'r Cyngor wedi darparu cyfleoedd mentora gyda sefydliadau, gan gynnwys Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig Cymru. Yn dilyn darparu hyfforddiant priodol ar gyfer Cynghorwyr, y bwriad yw datblygu'r cyfleoedd i wella'r math hwn o ymgysylltu i gefnogi rhaglenni mentora a chysgodi gyda rhanddeiliaid a phartneriaid, gan gynnwys y Cyngor Ieuenctid a'r Senedd Ieuenctid.

### Ymgysylltu â grwpiau a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol (Gwasanaethau Etholiadol)

Bydd Tîm Gwasanaethau Etholiadol y Cyngor yn parhau i gyflawni eu Cynllun Cofrestru ac Ymgysylltu, a fydd yn defnyddio'r Swyddog Ymwybyddiaeth Gyhoeddus a benodwyd yn ddiweddar gan weithio gydag ystod o randdeiliaid.

Mae ymgyrchoedd ymgysylltu yn cynnwys cyflawni Rhaglen Cenhadon Democratiaeth i ysgolion cynradd ac uwchradd gan gefnogi’r Cwricwlwm i Gymru 2022.  Mae'r rhaglen yn cynnwys gweithio gyda rhanddeiliaid eraill i ddarparu ystod o wybodaeth a gweithdai gyda'r bwriad o gynnwys Cynghorwyr ymhellach i gefnogi llythrennedd gwleidyddol o fewn y cwricwlwm.

Bydd y Gwasanaethau Etholiadol yn gwella'r ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a grwpiau cymunedol amrywiol. Bydd ymgyrchoedd yn cael eu teilwra i bob grŵp gyda'r Swyddog Ymwybyddiaeth Gyhoeddus yn nodi sefydliadau cymorth addas i ddarparu'r lefel gywir o gefnogaeth ac arweiniad.

Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i wella hygyrchedd ar gyfer cofrestru etholiadol ac etholiadau, sy'n cynnwys gwelliannau i ddarpariaeth ddigidol, darparu gwybodaeth mewn sawl iaith a chanllawiau hawdd eu darllen.

Helpodd mewnwelediad ac argymhellion y rhanddeiliaid i lunio'r cynllun gweithredu.



# Strategaeth Cyfranogiad Cyngor Caerdydd 2023-27: Cynllun Gweithredu Hyrwyddo Cyfranogiad yn y Broses Ddemocrataidd

| ***Gwella Ymwybyddiaeth*** | | |
|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **Cyflawni Dyddiad** | **Gwasanaeth Arweiniol** |
| **Byddwn yn:** | | |
| Cymeradwyo a chyhoeddi Canllaw i Gyfansoddiad Cyngor Caerdydd. | Mawrth 2024 | Gwasanaethau Democrataidd |
| Darparu fideos "Democratiaeth" a fyddai ar gael ar y Porth ac yn darparu gwybodaeth am:<br>• Gynghorau yng Nghymru a'u gwahaniaethau<br>• Pwysigrwydd amrywiaeth mewn democratiaeth<br>• Bod yn Gynghorydd – eich cefnogi i ateb yr her<br>• Yr hyn y gall y Cyngor ei wneud i chi a'ch cymuned leol<br>• Gwneud gwahaniaeth fel Cynghorydd | Mawrth 2024 | |
| Datblygu Cynllun Cyfathrebu "Democratiaeth" i wella ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i gymryd rhan ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor. | Mawrth 2024 | |
| Defnyddio sianeli cyfryngau cymdeithasol presennol y Cyngor lle y bo'n briodol i hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd gymryd rhan a rhannu eu barn gyda'r Cyngor. | Mawrth 2024 | |
| Datblygu "Porth Democratiaeth" rhyngweithiol i ddarparu canolbwynt ar gyfer gwybodaeth i gefnogi'r prosesau democrataidd i wella ymwybyddiaeth ac ymgysylltu. | Medi 2024 | |
| Datblygu safle Facebook Democratiaeth i helpu i hyrwyddo'r cyfleoedd hyn. Bydd hon yn sianel cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir yn bennaf gan bobl 35+ oed. | Rhagfyr 2024 | |
| Ystyried datblygu cyfrif cymdeithasol Twitter/X Democratiaeth yn dilyn hyn i ymgysylltu â phobl iau. | Rhagfyr 2024 | |
| Codi ymwybyddiaeth drwy'r defnydd o'r "Porth Democratiaeth" a'r cyfryngau cymdeithasol i wella'r broses ar gyfer ymgysylltu â'r adran Graffu a hysbysu penderfyniadau a pholisïau'r Cyngor. | Rhagfyr 2026 | |
| Codi ymwybyddiaeth drwy ddefnyddio'r "Porth Democratiaeth" a chyfryngau cymdeithasol Cynllun Deisebau'r Cyngor. | Rhagfyr 2026 | |
| Adolygu Cynllun Deisebau'r Cyngor yn dilyn cyfnod o godi ymwybyddiaeth. | Mawrth 2026 | |
| Datblygu siartiau llif gwneud penderfyniadau i egluro proses gwneud penderfyniadau'r Cyngor a gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd. | Mawrth 2025 | |
| Cefnogi datblygiad canllawiau ar gyfathrebu a gwybodaeth hygyrch. | Medi 2024 | |

## *Gwella Ymwybyddiaeth*

| Cam Gweithredu | Cyflawni Dyddiad | Gwasanaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| **Byddwn yn:** | | |
| Canllawiau ar gyfathrebu a gwybodaeth hygyrch i'w defnyddio ar gyfer cynnwys y Porth Democratiaeth. | Rhagfyr 2025 | Gwasanaethau Democrataidd |
| Datblygu dogfennau "llwybr" Democrataidd i hysbysu aelodau'r Cyngor Ieuenctid a grwpiau eraill sy'n dymuno ymgeisio i gael eu hethol fel Cynghorydd. | Mawrth 2026 | |
| Codi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i bobl anabl, gan gynnwys y rhai sy'n niwrowahanol a grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, i gymryd rhan a dod yn ymgeiswyr sy'n sefyll i gael eu hethol. | Rhagfyr 2026 | |

## *Gwella Ymgysylltu*

| Cam Gweithredu | Cyflawni Dyddiad | Gwasanaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| **Byddwn yn:** | | |
| Darparu hyfforddiant mentora a chysgodi i Gynghorwyr. | Rhagfyr 2024 | Gwasanaethau Democrataidd |
| Darparu hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau cyffredinol i Gynghorwyr i'w hannog i ddefnyddio'r cyfleusterau hyn i hysbysu ac ymgysylltu â'u hetholwyr. | Rhagfyr 2024 | |
| Cysylltu â rhanddeiliaid i nodi a darparu cyfleoedd ar gyfer mentora a chysgodi Cynghorwyr yn eu rôl. Bydd rhanddeiliaid yn cynnwys:<br>• Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru<br>• Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru<br>• Race Council Cymru<br>• EYST Cymru (Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig)<br>• Cyngor Ieuenctid Caerdydd<br>• Senedd Ieuenctid Cymru | Mawrth 2025 | |
| Cysylltu â rhanddeiliaid i nodi mesurau i gynorthwyo'r preswylwyr hynny sydd â nodweddion gwarchodedig i ymgeisio mewn etholiad. | Mawrth 2026 | |

## *Ymgysylltu â Chymunedau Amrywiol*

| Cam Gweithredu | Dyddiad Cyflawni | Gwasanaeth Arweiniol |
|---|---|---|
| **Byddwn yn:** | | |
| Darparu Rhaglen Cenhadon Democratiaeth i ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghaerdydd i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru 2022. | Blynyddol – pob blwyddyn academaidd | Gwasanaethau Etholiadol |
| Nodi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a chymunedau amrywiol a theilwra ymgyrchoedd cofrestru etholiadol (drwy gydol y flwyddyn a'r canfasiad blynyddol) a chyfranogiad pleidleiswyr (adeg etholiad). | Bob blwyddyn yn ystod y canfasiad cyn etholiadau | |
| Datblygu gwybodaeth a chanllawiau hygyrch i etholwyr. | Ionawr 2027 | |

| ***Datganiad Cyngor Amrywiol*** | | |
|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **Dyddiad Cyflawni** | **Gwasanaeth Arweiniol** |
| **Byddwn yn:** | | |
| Adolygu prosesau a dogfennaeth Taliadau Cydnabyddiaeth y Cyngor er mwyn sicrhau eu bod yn hawdd eu deall. | Medi 2024 | Gwasanaethau Democrataidd |
| Nodi cyfleoedd i ddangos safonau uchel o gefnogaeth a datblygiad i'n haelodau etholedig. | Mawrth 2025 | |
| Gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o rôl a swyddogaethau Cynghorwyr lleol a'r Cyngor. | Rhagfyr 2025 | |
| Ceisio cefnogaeth gan bob Aelod Etholedig a grŵp gwleidyddol ar y Cyngor i weithio gyda chymdeithasau pleidiau lleol i recriwtio ymgeiswyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. | Mawrth 2026 | |
| Annog a galluogi pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ymgeisio mewn etholiadau. | Mawrth 2027 | |